

Rhif: WG31640



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Dyddiad cyhoeddi: **07/12/17**

Ymatebion erbyn: **29/03/18**

Trosolwg Diben allweddol yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am eich barn ynglŷn â'r drafft o [Gynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru](#).

Mae'r drafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cefnogi datblygiad cynaliadwy ein moroedd ac fe'i paratowyd yn unol â'r Datganiad Polisi Morol (2011) a Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Cyhoeddwyd gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd Bwyd a Materion Gwledig. Mae'r drafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru'n cymhwyso egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Rydym hefyd yn gofyn am eich barn am y canlynol:

- [Yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y cynllun](#)
- [Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r cynllun](#)
- [Yr adolygiad o bolisi ar garthu agregau morol dros dro](#)

Mae asesiadau o'r effaith wedi eu cynnal fel a ganlyn:

- Economeg
- Y Gymraeg
- Preifatrwydd
- Prawfesur o safbwynt anghenion cefn gwlad
- Cydraddoldeb
- Hawliau'r Plentyn

Rydym am sicrhau bod Cynllunio Morol ar gyfer Cymru yn addas ar gyfer y diben a'i fod yn dwyn manteision i'r gymdeithas, yr economi, a'r amgylchedd gan felly gyfrannu ar draws nodau llesiant Cymru. Mae eich barn yn bwysig o ran ein helpu i gyflawni hyn.

Sut i ymateb Dylid cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 29 Mawrth 2018 fan bellaf mewn un o'r ffyrdd canlynol:

Trwy'r e-bost: marineplanning@wales.gsi.gov.uk

Trwy'r post:

Trwy gwblhau'r ffurflen ymateb yng nghefn y ddogfen hon a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

Y Gangen Polisi Morol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Hefyd, mae'r wybodaeth ganlynol, sy'n ymwneud â Chynllun Morol Cymru, ar gael i ategu'r ymgynghoriad hwn:

Animeiddiad Cynllunio Morol yng Nghymru

<https://www.youtube.com/watch?v=d7i30DT9ffg#t=65>

Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/marine-planning/other-supporting-evidence/wales-marine-evidence-report/?skip=1&lang=cy>

Porth Cynllunio Morol Cymru

<http://lle.gov.wales/apps/marineportal/>

Cynllunio Morol; Deall y manteision a'r cyfleoedd

<http://gov.wales/docs/drah/publications/170531-marine-planning-benefits-cy.pdf>

Datganiad ar Gyfranogiad Cyhoeddus ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

<http://gov.wales/docs/drah/publications/170214-statement-of-public-participation-2017-en.pdf>

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Polisi Morol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: marineplanning@wales.gsi.gov.uk

ffôn: (029) 2082 3331

Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth y Cynulliad sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth y Cynulliad yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddiwydd

yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet

Rwy'n ymrwymedig i ddull cydgysylltiedig o gynllunio a rheoli ein harfordir a'n môr a gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol. Fel rhan o'n dull o wireddu'r weledigaeth, rwy'n lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar gyflwyno cynllun morol cyntaf Cymru – Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

Mae peth wmbredd o waith wedi cael ei wneud i gyrraedd y pwynt hwn ac rwy'n ddiolchgar i'r holl randdeiliaid morol am eich ymgysylltiad a'ch cefnogaeth trwy gydol y broses hon.

Bydd Cynllunio Morol yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer Rheolaeth Gynaliadwy ar ein moroedd. Trwy ystyried defnydd posibl o adnoddau naturiol morol yn y dyfodol, rwy'n cynnig cynllun integredig sengl a fydd, ynghyd â Datganiad Polisi Morol y DU, yn arwain penderfyniadau ynghylch cynigion datblygu. Bydd y system gynllunio'n gweithio gyda'n cyfundrefn trwyddedu morol yn ogystal â phrosesau cydsynio eraill ac yn eu cefnogi.

Rwy'n cydnabod bod diwydiannau twristiaeth, trafniadaeth, ynni môr, pysgodfeydd, dyframaeth, telathrebu ac agregau Cymru ymhlith eraill yn hollbwysig i'n heconomi. Bydd y cynllun yn cefnogi'r diwydiannau hyn a'n cymunedau arfordirol, gan eu galluogi i dyfu trwy ddarparu fframwaith galluogol ar gyfer defnydd cynaliadwy o adnoddau morol Cymru i gefnogi nodau llesiant Cymru a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Bydd ein dull yn ein helpu i wireddu ein huchelgais 'Twf Glas' yma yng Nghymru, gan sicrhau bod cydnerthedd ein hecosystemau morol yn cael ei gynnal a'i wella a bod y manteision y maent yn eu dwyn yn eu cefnogi cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Ein hegwyddorion arweiniol yw y byddwn yn cyflawni mwy trwy gydweithio gyda rhanddeiliaid i ddiogelu ein harfordir, moroedd a bywyd gwylt syfrdanol a datblygu ein heconomi forol. Rwy'n credu bod system cynllunio morol effeithiol yn hanfodol.

Rwy'n gwerthfawrogi eich barn yn fawr ac yn eich annog i gyflwyno'ch safbwyntiau; edrychaf ymlaen at glywed beth sydd gennych i'w ddweud am y mater pwysig hwn.

Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eich barn am Gynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru. Diben allweddol yr ymgynghoriad hwn yw egluro sut y bydd cynllunio morol yn cael ei roi ar waith yng Nghymru a'ch galluogi i ddarparu adborth.

Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn nodi'r sylfaen statudol ar gyfer cynllun newydd seiliedig-ar-gynllun i wneud penderfyniadau ynghylch gweithgareddau morol ledled y DU. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer ardaloedd y glannau a'r môr mawr. Datblygwyd y cynllun hwn ochr yn ochr â chynllunio morol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a chaiff ei arwain gan Ddatganiad Polisi Morol y DU (2011) ond mae cyd-destun Cymreig unigryw iddo gan gynnwys cyflawni ein deddfwriaeth newydd i gefnogi Datblygu Cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Cefndir

Mae moroedd Cymru'n fawr ac yn bwysig inni; Mae gan Gymru tua 32,000 km² o fôr yn ogystal â 21,000 km² o dir a amgylchynir gan 2,120 km o forlin. Mae ein harwynebedd morol yn fwy nag arwynebedd ein tir ac yn cynnwys adnoddau naturiol amrywiol a gwerthfawr.


Mae ein moroedd yn dod yn fwyfwy gorlawn, gan greu cystadleuaeth am le a'r defnydd o'n hadnoddau naturiol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ein hadnoddau naturiol morol a'r ffaith bod ecosystemau morol iach a chydnerth yn tanategu ein heconomi, ein hiechyd a'n llesiant a'u bod yn bwysig i'n diwylliant. Rydym yn ymrwymedig i reoli ein moroedd mewn modd mwy integredig sydd wedi'i gynllunio'n well i sicrhau eu cynaliadwyedd yn yr hirdymor. Bydd hyn yn golygu gwneud pethau'n wahanol gan gynnwys cyflwyno dull rheoli morol blaengar, rhagweithiol a gofodol.

Mae'r ddogfen hon yn ymgynghori ynghylch Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru. Diben Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yw rhoi arweiniad ar gyfer datblygiad cynaliadwy ein hardal forol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn adeiladu ar ymgynghoriadau ac ymgysylltu cysylltiedig blaenorol ynghylch:

- Datganiad o gyfranogiad y cyhoedd ar gyfer cynllunio morol
- Gweledigaeth ac Amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru
- Y sail dystiolaeth
- Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y cynllun
- Drafft cychwynnol o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd 2015

Mae'r drafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru yr ydym yn ymgynghori yn ei gylch yn awr wedi cael ei ddiwygio mewn ymateb i sylwadau a gafwyd o'r ymgynghoriadau cynharach hyn a deialog ragweithiol gyda phartion â buddiant allweddol. Mae'n ymdrin â dyfroedd glannau (hyd at 12 milltir forol) a dyfroedd môr mawr (y tu hwnt i

12 milltir forol) Cymru mewn un ddogfen. O ran y tir, mae'r cynllun hwn yn cwmpasu hyd at y penllanw cymedrig. Mae'n berthnasol i swyddogaethau a gadwyd a rhai datganoledig a gaiff eu harfer yn yr ardal hon (Ffigur 1).



Ffigur 1. Ardal Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Diben a gwerth cynllunio morol

Mae cynllunio morol yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer rheoli moroedd Cymru, gan helpu i sicrhau bod adnoddau naturiol morol yn cael eu rheoli a'u defnyddio mewn ffordd gynaliadwy a thrwy hynny gyfrannu at nodau llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Trwy ddull sy'n integredig ac yn seiliedig ar gynllun, bydd cynllunio morol yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at wireddu ein gweledigaeth ar gyfer ein moroedd. Bydd gweithredu prosesau cynllunio morol yn helpu i hwyluso rheolaeth a defnydd mwy effeithiol ar adnoddau morol trwy greu'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn modd cyson, cynaliadwy a seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n galluogi'r Llywodraeth i bennu cyfeiriad eglur ar gyfer rheoli ein moroedd, i egluro amcanion a blaenoriaethau, ac i gyfeirio penderfynwyr, defnyddwyr a rhanddeiliaid tuag at ddefnydd mwy strategol ac effeithlon o adnoddau morol.

Pa newidiadau ydym yn eu cynnig?

Mae'r broses cynllunio morol a nodir yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir eisoes wedi dechrau. Cafodd Datganiad Polisi Morol y DU ei mabwysiadu gan Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau datganoledig yn 2011.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chynnig Llywodraeth Cymru i fabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Hwn fyddai cynllun morol cyntaf Cymru ac mae'n cynrychioli newid o ran maint a natur cyfarwyddyd polisi a ddarperir ar gyfer gwneud penderfyniadau yn yr ardal forol.

Unwaith y bydd wedi'i fabwysiadu, bydd angen i benderfyniadau gael eu gwneud yn unol â'r cynllun i helpu i sicrhau eu bod yn cyfrannu at gyflawni amcanion polisi y DU, amcanion polisi cenedlaethol ac unrhyw amcanion polisi ardal-benodol. Ar ôl iddo gael ei fabwysiadu fel y nodir o dan Adran 51 (11) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009), effaith y cynllun, fel y nodir o dan Adran 58, yw bod yn rhaid i awdurdod cyhoeddus wneud unrhyw benderfyniad awdurdodi neu orfodi yn unol â'r dogfennau polisi morol priodol, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae'r drafft ymgynghori o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynnwys paragraffau wedi'u rhifo i wneud ymatebion yn haws. Byddem yn ei chael yn ddefnyddiol cael gwybodaeth benodol yn ôl rhif y paragraff lle'r ydych chi'n meddwl bod lle i wella.

Fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru yn flaenorol ynghylch gweledigaeth ac amcanion i oleuo datblygiad polisïau'r cynllun. Mae'r weledigaeth a'r amcanion yn bwysig gan eu bod yn darparu'r cyfeiriad ar gyfer y cynllun. Mae amcanion wedi'u bwriadu i gyfrannu at weledigaeth y cynllun. Mae'n ofynnol hefyd i Weinidogion

Cymru gyhoeddi adroddiadau sy'n dynodi i ba raddau y mae amcanion y cynllun yn cael eu cyflawni.

C1. Ydych chi'n cytuno â gweledigaeth ac amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru?

Diben y cynllun morol yw cydgyssylltu a chyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy yr ardal forol trwy roi arweiniad ar gyfer penderfyniadau i optimeiddio'r defnydd o adnoddau naturiol yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen i fanteision posibl prosiectau gael eu deall yn glir a'u cymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau yn ogystal â chyfleoedd i leihau effeithiau anffafriol posibl i'r eithaf neu eu hosgoi'n llwyr.

C2. Ydych chi'n cytuno bod y cynllun drafft, ei amcanion a'i bolisïau yn darparu fframwaith ar gyfer datblygiad cynaliadwy ardal cynllun morol Cymru?

Dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus wneud unrhyw benderfyniad i awdurdodi neu orfodi yn unol â'r dogfennau polisi morol priodol, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn dynodi fel arall. Bydd llawer o benderfyniadau morol, ond nid pob un ohonynt, yn rhai lle mae datblygwyr posibl yn gwneud cais am drwydded forol gan wasanaeth trwyddedu CNC. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru wedi'i fwriadu i roi cymorth i wneud penderfyniadau trwy gyfeirio datblygiadau at y lleoliadau mwyaf ffafriol.

C3. Ydych chi'n cytuno bod Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn darparu gwybodaeth ac arweiniad eglur i roi cymorth i wneud penderfyniadau?

Y rhan graidd o'r cynllun yw polisïau sector a chyffredinol y cynllun a chanllawiau ategol ynghylch gweithredu polisïau. Mae potensial i'r polisïau cyffredinol yn y cynllun fod yn berthnasol i'r holl gynigion a phenderfyniadau gan awdurdodau cyhoeddus ac maent wedi cael eu datblygu yn unol â'r fframwaith a ddarparwyd gan Ddatganiad Polisi Morol y DU. Maent hefyd wedi cael eu harwain gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ac egwyddorion cysylltiedig y Dull Ecosystemau dan y Confensiwn Amrywiaeth Fiolegol.

C4. Ydych chi'n cytuno ein bod ni wedi adnabod yr holl feysydd polisi cyffredinol perthnasol a bod y rhain yn addas ar gyfer y diben i wireddu Gweledigaeth a chyflawni Amcanion y cynllun?

Mae'r cynllun wedi'i fwriadu i roi cymorth i ddefnyddio'r ardal forol yn gynaliadwy trwy ddarparu eglurder i oleuo penderfyniadau buddsoddi a phenderfyniadau cyrff rheoleiddio. Dylai cymhwyso dull cymesur o weithredu polisïau'r cynllun wrth ddatblygu cynigion a gwneud penderfyniadau helpu i leihau'r baich cyffredinol ar ddatblygwyr a phenderfynwyr. Mae Polisi GEN_02 yn y cynllun drafft a'r canllawiau gweithredu atodol yn amlygu pwysigrwydd defnyddio dull cymesur wrth gymhwyso'r polisïau yn y cynllun.

C5. Ydych chi'n cytuno bod Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn darparu dull eglur o sicrhau bod polisïau'n cael eu cymhwyso i gynigion ar sail gymesur?

Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn ei gwneud yn ofynnol bod cynlluniau morol yn gydnaws â chynlluniau daearol perthnasol a hefyd yn rhoi sylw i gynlluniau perthnasol eraill. Mae gan awdurdodau daearol cenedlaethol a lleol ac awdurdodau cynllunio morol cyfagos rôl allweddol o ran datblygu a gweithredu cynllunio morol ar draws ffiniau. Wrth ddatblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, rhoddwyd ystyriaeth i'r holl gynlluniau perthnasol ar adeg ei ddatblygu, gan gynnwys cydadweithiau rhwng y tir a'r môr.

C6. Ydych chi'n cytuno y gall Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru gefnogi integreiddio rhwng rheoli'r tir a'r môr a chyfrannu at egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol?

C7. Ydych chi'n cytuno bod Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn rhoi ystyriaeth ddigonol i heriau a chyfleoedd cynllunio morol ar draws ffiniau, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae Cymru'n ffinio â Lloegr?

Mae gweithredu llwyddiannus yn hollbwysig i lwyddiant Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Caiff polisïau'r cynllun eu hategu felly gan ganllawiau gweithredu polisïau sy'n canolbwyntio ar gynigion a gyflwynir gerbron a sut y dylai penderfynwyr eu trin.

Er mwyn gwireddu gweledigaeth y cynllun y dylai penderfyniadau barchu defnyddiau a buddiannau sefydledig gan sicrhau'r manteision sy'n deillio o gyfleoedd newydd, mae polisïau sector yn y cynllun yn cefnogi ac yn diogelu gweithgarwch presennol a gweithgarwch posibl yn y dyfodol. Mae'r polisïau hyn wedi'u bwriadu i roi eglurder a hyder i'r rhai sy'n ystyried buddsoddi yn natblygiad cynaliadwy moroedd Cymru a hefyd i benderfynwyr.

C8. Ydych chi'n cytuno bod y canllawiau gweithredu ar gyfer polisïau cyffredinol yn addas i'w diben?

C9. Oes gennych unrhyw sylwadau neu bryderon mewn perthynas â'r polisïau cefnogi a diogelu a'r canllawiau gweithredu sector?

Caiff Ardaloedd Adnoddau Strategol eu hadnabod ar gyfer rhai sectorau (dyframaeth, ynni carbon isel, porthladdoedd a morgludiant ac agregau) er mwyn canolbwyntio buddsoddiadau yn y dyfodol ar ardaloedd penodol a helpu i sicrhau dull seiliedig ar gynllun o wneud penderfyniadau.

C10. A ydym wedi adnabod Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer y sectorau cywir ac yn yr ardaloedd priodol?

Mae'r cynllun yn cydnabod bod yr ardal forol yn gwneud cyfraniad pwysig i gymdeithas a'n heconomi a'i bod yn adnodd gwerthfawr y mae angen ei reoli'n ofalus er mwyn sicrhau ein bod ni a chenedlaethau'r dyfodol yn gallu cael budd

ohono. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno cefnogi cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer twf glas ac mae wedi adnabod cyfleoedd penodol ym maes twristiaeth a hamdden, ynni adnewyddadwy'r môr, porthladdoedd a morgludiant a dyframaeth.

C11. Ydych chi'n meddwl bod y cynllun yn mynd ati'n ddigonol i adnabod cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer twf glas?

Ers 2004, mae carthu agregau wedi bod yn cael ei reoli gan Lywodraeth Cymru ar sail Polisi Carthu Agregau Morol interim ar gyfer De Cymru. Fe wnaeth y polisi hwn oleuo'r broses "Barn y Llywodraeth" ar y pryd o ddyroddi caniatadau carthu. Er hynny mae carthu agregau wedi bod yn cael ei reoli trwy ddyroddi trwydded forol gan wasanaeth trwyddedu CNC dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir gan gydymffurfio â gweithdrefnau statudol. Cymerwyd y cyfle i adolygu ac ymestyn polisi i Gymru gyfan trwy'r polisi sector agregau a'r polisiau a phrosesau penderfynu cyffredinol sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

Mae [Yr adolygiad o bolisi ar garthu agregau morol dros dro](#) yn egluro'r newidiadau arfaethedig a sut y penderfynwyd ar y cynnig i ddiddymu'r Polisi Carthu Agregau Morol interim a'i ddisodli â gweithdrefnau statudol.

C12. A oes gennych unrhyw sylwadau ar bolisi carthu agregau morol diwygiedig Llywodraeth Cymru yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r cynnig i ddiddymu'r Polisi Carthu Agregau Morol interim?

Nid yw'n gyfrifoldeb statudol llawn i wahodd sylwadau am ddogfennau ategol cynllun drafft ac eithrio'r adroddiad ar yr arfarniad o gynaliadwyedd. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw sylwadau pellach am unrhyw un o'r dogfennau ategol mae croeso ichi eu darparu.

C13. A oes gennych unrhyw sylwadau am ganfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru?

C14. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd?

Pan fo dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi'n cael ei chyhoeddi, mae'n bwysig bod Safonau Cymru ar gyfer gwneud polisiau'n cael eu cymryd i ystyriaeth a'n bod yn gofyn am farn pobl ynglŷn â hyn yn yr ymgynghoriad.

C15. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n anffafriol) y byddai cyflwyno Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

C16. A oes gennych unrhyw sylwadau wrth ystyried a allai'r cynigion gael eu llunio neu eu diwygio mewn modd sy'n golygu eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau llai anffafriol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Dylai pob dogfen ymgynghori gynnwys cwestiwn 'agored' sy'n gwahodd sylwadau mwy cyffredinol gan gynnwys rhai am faterion nad ydynt o bosibl wedi cael sylw yn y cynigion a gyhoeddwyd.

C17. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau cyffredinol, ond a oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru?

Camau Nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn eich gwahodd i gyflwyno'ch barn erbyn **29/03/18**. Yn arbennig, croesewir sylwadau am y cwestiynau uchod gan ddefnyddio'r Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad ar-lein. A fyddech cystal ag ategu unrhyw sylwadau y byddwch yn eu gwneud, yn arbennig trwy gyfeirio at y paragraffau wedi'u rhifo y maent yn ymwneud â hwy.

Yn ystod y broses o baratoi'r drafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, rydym wedi cynnal ymgynghoriadau anffurfiol gydag ystod fawr o randdeiliaid. Er ein bod wedi gwneud llawer o welliannau o ganlyniad, byddem yn ddiolchgar i gael unrhyw sylwadau pellach (hyd yn oed os ydynt wedi cael eu cyflwyno'n flaenorol) nad ydym wedi rhoi sylw iddynt yn eich tyb chi ac yr hoffech inni eu hystyried cyn penderfynu'n derfynol ar y cynllun.

Bydd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu'n cael eu cynnal gyda rhanddeiliaid i ofyn am eu barn yn ystod y cyfnod ymgynghori, a fydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn llunio crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ac yn defnyddio'i ganfyddiadau i gwblhau a mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.